

ADRODDIAD BLYNYDDOL AELODAU CYNGOR

BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif weithgareddau yn ystod blwyddyn y Cyngor a ddaeth i ben fis Mawrth 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw bwrpas arall.

Cyfarwyddiadau cwblhau

Mae Cyngorwyr yn rhydd i gynnwys cymaint neu cyn lleied o wybodaeth ag y dymunant ym mhob adran. Fodd bynnag, rhaid cadw'r adroddiad i fformat 2 dudalen (uchafswm).

Cynghorydd: Krista Childs

Plaid: Llafur

Ward: Coedpoeth

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau:

Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau canlynol (darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan CBSW):

- SCWSC
- PWYLLGOR TROSEDD AC ANHREFN
- PWYLLGOR TRWYDDEDU AMGYLCHEDDOL
- PWYLLGOR TRWYDDEDU

Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau allanol canlynol (darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan y Cyngorydd):

- Cadeirydd PWYLLGOR RHEOLI PLAS PENTWYN
- PWYLLGOR IEUENCTID A CHWARAE WRECSAM – ymddiriedolwr
- YSGOL BRYN TABOR- Llywodraethwr Ysgol
- COLEG DERWEN – Llywodraethwr
- GRŴP LLYWIO DEMENTIA GYFEILLGAR WRECSAM
- PWYLLGOR CYFEILLION MELIN NANT
- CLWB PÊL-DROED COEDPOETH UNITED
- GRWP PLAYABLE PLACES

Adran 2: Gweithgareddau yn fy Etholaeth:

Rwy'n cael cyswllt rheolaidd gyda thrigolion ledled y ward drwy alwadau ffôn, ymweld â chartrefi, cyfarfodydd am wahanol ddatblygiadau a phryderon a hefyd weithiau ganmoliaeth sydd bob amser yn cael ei werthfawrogi.

Rwy'n cael cyswllt rheolaidd gyda'n tîm Datblygu Ieuenctid a Chwarae, trigolion, Cyngor Cymuned Coedpoeth ac Aelodau Cynulliad ynglŷn â datblygiad parhaus y prosiect ieuenctid a chwarae ar gae Adwy.

Rwy'n cael cyswllt rheolaidd a theithiau cerdded amgylcheddol gyda'n Goruchwyliwr

Strydwedd Andy Hughes, sydd bob amser yn barod iawn ei gymorth gyda phob mater.

Rwyf wedi bod ar ymweliadau safle gyda Swyddogion Tai, cynrychiolwyr tenantiaid a chontractwyr ynglŷn ag adnewyddu eiddo, gwaith amgylcheddol a manteision cymunedol.

Rwy'n cael cyswllt a chyfarfodydd rheolaidd gyda'n SCCH lleol ym mhob rhan o'r ward.

Rwyf wedi cefnogi Ysgol Bryn Tabor yn ddiweddar i gymryd adeilad y Ganolfan Rhagoriaeth Ieuenctid drosodd – yn anffodus roedd y ganolfan wedi gorfod cau oherwydd toriadau yng nghyllideb gwasanaethau ieuenctid CBSW.

Rwyf hefyd wedi ymgysylltu â chyfarfodydd amlasiantaeth i geisio datrys rhai materion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn y ward.

Rwy'n cael cyswllt a chyfarfodydd rheolaidd gyda Swyddogion CBSW, y Cynghorydd Michael Dixon, Cyngor Cymuned Coedpoeth a'n Haelod Cynulliad mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r ward ac rwyf wedi ymgyrchu'n weithredol dros ac wedi cefnogi trosglwyddiad asedau cymunedol, sef caeau a phafiliwn Penygelli a Melin Nant, i Gyngor Cymuned Coedpoeth ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol er budd a lles ein cymuned.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Eraill:

Cyfarfodydd parhaus a datblygiadau Partneriaeth Ieuenctid a Chwarae Wrecsam gyda darparwyr darpariaethau eraill yn CBSW.

Cefnogaeth barhaus ar gyfer gwelliannau cymunedol a datblygiadau safle caeau Penygelli, offer chwarae a phafiliwn gyda Chlwb Coedpoeth United, Grŵp Playable Places a swyddfa'r Aelod Cynulliad.

Mynychu a helpu i drefnu llawer o ddiwyddiadau lleol. Carnifal, digwyddiadau dros y Pasg ym Mhlas Pentwyn, Melin Nant ac Aelod o Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru gan fynychu eu digwyddiad agoriadol bendigedig yng Ngwarchodfa Natur Chwarel y Mwynglawdd.

Adran 4: Dysgu a Datblygu a Gwblhawyd:

Rwyf wedi mynychu llawer o weithdai a sesiynau hyfforddi a ddarparwyd gan CBSW, Coleg Derwen, Plas Pentwyn.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill:

Rwyf hefyd wedi cefnogi a mynychu cyfarfodydd grwpiau lleol a Chyngor Cymuned Coedpoeth ble bynnag bosibl

**Llofnod y Cynghorydd : Krista Childs
2018**

Dyddiad: 30 Gorffennaf